Ni Bia’ Addysg Uwch.

Adeiladu ymgyrch *Ni Bia’ Addysg*.

University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk



Mae addysg yn eiddo i ni.

Mae addysg yn eiddo i'r myfyrwyr yn ein hystafelloedd dosbarth, yr addysgwyr sy'n eu haddysgu a'u cefnogi, ac i bawb yn ein cymdeithas sy'n elwa o ddatblygiad gwybodaeth.

Ond ar ôl degawdau o danariannu a marchnadoli, mae addysg uwch yn cael eiwthio nes ei fod ar fin torri.

Mae swyddi'n cael eu dileu ar raddfa nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen. Mae cyrsiau'n diflannu ac mae campysau dan fygythiad. Mae cyflogau a phensiynau mewn perygl. Mae llwythi gwaith yn cynyddu y tu hwnt i reolaeth. Ac mae myfyrwyr yn gadael gyda lefelau cynyddol o ddyled.



> ***Mae'r system mewn argyfwng. Ond mae'r llywodraeth yn gwrthod gweithredu. Felly mae'n rhaid i ni – fel gweithwyr addysg – wneud rhywbeth yn ei gylch.***

Ni Bia' Addysg yw ein hymgyrch dros ddyfodol gwell.

Rydym yn galw am fuddsoddiad ar unwaith mewn addysg uwch; camau i ddiogelu swyddi, cyflogau a phensiynau; cynllun i drawsnewid y model ariannu hirdymor; tegwch i staff a myfyrwyr, a threfniadau llywodraethu cryfach yn ein prifysgolion.

Mae modd cyflawni'r holl bethau hyn, ond byddant ond yn digwydd os bydd aelodau UCU yn gorfodi'r llywodraeth i weithredu.

Mae gan bob aelod o UCU ran i'w chwarae i sicrhau bod yr ymgyrch hon yn llwyddiant. Rydych chi'n gwybod yn well nag unrhyw un beth sy'n digwydd yn eich gweithle. Rydych chi'n gwybod yn union beth mae toriadau'n ei olygu i'ch myfyrwyr a'ch cydweithwyr. A chi yw'r bobl sydd yn y sefyllfa orau i greu ymgyrch wnaiff ennill.

J Grady

Dr Jo Grady
Ysgrifennydd Cyffredinol UCU

Pam mai ein cyfrifoldeb ni yw diogelu addysg.

Ar ôl degawdau o dan-gyllidoa marchnadeiddio, mae'r system addysg ôl-16 wedi torri. Mae cyrsiau'n cael eu dileu, mae colegau a phrifysgolion dan fygythiad, mae swyddi'n diflannu, ac mae'r rhai sydd ar ôl yn wynebu cyflogau ac amodau sy'n gwaethygu.

Mae colli addysgwyr profiadol yn niweidio ansawdd addysgol, yn rhoi myfyrwyr dan anfantais ac yn atal cynnydd. Yn y cyfamser, mae addysgwyr yn wynebu anawsterau yn sgil costau byw cynyddol ac mae ffioedd dysgu yn rhoi myfyrwyr mewn dyled ddiddiwedd.

Mae gwledydd sy'n addysgu eu pobl yn diogelu eu dyfodol eu hunain, ond ar draws y DU mae llywodraethau olynol wedi methu â thrwsio'r system sydd wedi torri. Mae'r argyfwng hwn yn erydu addysg, yn cyfyngu ar gyfleoedd pobl ifanc ac yn gwanhau'r cymunedau a'r economi sy'n dibynnu arni. Nid oes rhaid i bethau fod fel hyn.

Ymgyrch newydd yw *Ni Bia' Addysg* sy'n targedu'r llywodraeth, gan fynnu ei bod yn mynd i'r afael o'r diwedd â'r systemau addysg bellach ac uwch sydd wedi torri. Rydym yn galw am system addysg ôl-16 sydd wedi'i hariannu yn llawn, ac yn hygyrch i bawb. System addysg a fydd yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion, ac a fydd yn helpu'r DU i ymdopi â'r heriau sydd o'n blaenau.

Rydym yn galw ar y llywodraeth i weithio gyda'n haelodau, staff a myfyrwyr i adeiladu system sy'n gweithio i bawb. Oherwydd ni bia' addysg – mae'n eiddo i bob un ohonom, ac mae'n rhaid i ni ymladd i'w diogelu.

Ein gweledigaeth

Mae system addysg sydd wedi torri yn perygluein dyfodol, yn dwyn cyfleoedd bobl ifanc, ac yn gwanhau'r cymunedau a'r economïau sy'n dibynnu arni. Ond nid oes rhaid i bethau fod fel hyn.

Dychmygwch wlad lle mae addysg ôl-16 yn cael ei hariannu a'i diogelu'n briodol, lle gall staff drosglwyddo sgiliau angenrheidiola helpu i ddarganfod atebion i'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas. Os nad ydym yn gweithredu, bydd ein methiant yn atseinio am genedlaethau - felly ymunwch â'n hymgyrch.

Yr ymgyrch hon

Rydym yn anelu at sicrhau:

- Cyllid ychwanegol ar unwaith ar gyfer addysg uwch.
- Diogelwch ar gyfer swyddi, cyflogau a phensiynau mewn prifysgolion.
- Ymrwymiad i drawsnewid y model ariannu hirdymor.
- Dull tecach o ymdrin â myfyrwyr rhyngwladol.
- Trefniadau cryfach ar gyfer llywodraethu'r sector.


SOAS
ucu
Union
Support next generation of
Students;
Support next generation of
Teachers!
UCU


ucu
University and College Union
LONDON REGION
NO CUTS
KNOWLEDGE IS POWER
Middlesex University
UNITY IS STRENGTH
STAND TOGETHER
AGAINST THE FAR RIGHT
ucu ucu.org.u

Sut gallwn ennill?

Er mwyn sicrhau system addysg uwch sy'n gweithio i'r mwyafrif, ac nad yw'n gorfod dioddefmympwyon y farchnad na phenderfyniadau busnes amheus gan uwch-reolwyr, mae angen i ni drawsnewid y model ariannu presennol.

Dim ond drwy feithrin grymar y cyd â'n cydweithwyr, myfyrwyr, partneriaid ymchwil, cyrff proffesiynol, teulu, ffrindiau, cymunedau a busnesau lleol y gellir cyflawni hyn.

Mae angen i ymgyrch *Ni Bia' Addysg* fod yn seiliedig ar ganghennau cryf sy'n dwyn cyflogwyr i gyfrif am eu hymdrechion gwrth-ddemocrataidd i ddatgymalu sefydliadau addysg uwch.

Rhaid i ni adeiladu'n wleidyddol hefyd, ac mae ein strategaeth wedi'i rhannu'n bedwar piler:

- **Cryfhau grym canghennau a rhanbarthau** drwy adnoddau, ymgyrchu lleol a chymorth cydgysylltiedig.
- **Meithrin dylanwad gwleidyddol a sectoraidd** drwy lobïo, a thrwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r llywodraeth.
- **Newid y naratif** ynglŷnâ gwerth addysg uwch ac effaith toriadau ar staff, cymunedau a'r economi.
- **Dod ac aelodau at eu gilydd** drwy waith trefnu digidol, ymgyrchu a mwy o gyfranogiad.

Drwy'r gyd-weithio fel hyn, byddwn yn dangos i Aelodau Seneddol, Aelodau o Senedd Cymru, Aelodau o Senedd yr Alban ac Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol yng Ngogledd Iwerddon fod angen iddynt ymuno â'u hetholwyr yn yr ymgyrch.

Gyda'r grym yma, ni fydd gan y llywodraeth ddewis ond creu model ariannu sydd wir yn adlewyrchu gwerth a chyfraniad prifysgolion i gymdeithas.

Ni fyddwch yn brwydro ar eich pen eich hun. Bydd ymgyrchoedd cenedlaethol yn darparu adnoddau, gwaith cyfryngau cenedlaethol, ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a phecynnau ymgyrchu i gefnogi gwaith trefnu lleol. Byddwn hefyd yn cynnal gweithdai drwy gydol 2027i feithrin gallu a chefnogi ymgyrchoedd lleol, er mwyn sicrhau bod ein hymdrechion yn cyd-fynd â'r nodau ehangach.

Gallwch gael gafael ar adnoddau eraill sy'n gysylltiedig â'r nodau hyn ar wefan *Ni Bia' Addysg*: educationitsours.org.uk



Ni Bia' Addysg

University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk

Cynhyrchwyd gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, Carlow Street, London NW1 7LH